Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Gresford Skincare and Laser Clinic
# Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-744-1



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Gresford Skin and Laser Clinic fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Gresford Skin and Laser Clinic ger Wrecsam yng Ngogledd Cymru. Mae'r clinig yn defnyddio laserau a systemau golau pwls amlswyddogaethol i ddarparu amrywiaeth o driniaethau ar gyfer briwiau fasgwlaidd ac i waredu blew, gwythiennau glas a thatŵau â phigmentau du a choch.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (y Rheoliadau) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr ar 16 Mehefin 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau eich bod yn cynnal urddas y cleifion? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau y caiff triniaeth ei darparu mewn modd diogel ac effeithiol, gan gynnwys y ffordd y caiff cyfarpar laser ei gynnal a'i gadw yn briodol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y trefniadau atal a rheoli heintiau a'r trefniadau glanhau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn iddynt ddarparu gofal diogel ac effeithiol?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Y datganiad o ddiben
- Polisi asesu risg
- Polisi diogelwch tân
- Polisi rheoli heintiau
- Asesiad risg COVID-19
- Y canllaw i gleifion
- Polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Polisi diogelu
- Protocolau meddygol a thriniaeth
- Rheolau lleol
- Tystysgrifau cynnal a chadw laserau
- Tystysgrifau yswiriant atebolrwydd

Hefyd, holwyd y rheolwr am y newidiadau a wnaed er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddodd y rheolwr gyfres o bolisïau cynhwysfawr i ni yn amlinellu dull gweithredu'r clinig mewn perthynas ag asesiadau risg yn y gweithle, gwiriadau rheolaidd o'r amgylchedd, cyfarpar ac eitemau a ddefnyddir yn y clinig a diogelwch tân.

Rhoddodd y rheolwr wybod i ni fod y clinig wedi mabwysiadu polisi apwyntiadau'n unig erioed a'i fod wedi cadw at hyn drwy gydol y pandemig. Mae egwylion o 15 munud wedi cael eu trefnu rhwng cleientiaid er mwyn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n bresennol yn y clinig ar yr un pryd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod yr egwyl 15 munud rhwng cleientiaid yn cynnig digon o amser i sicrhau bod ystafelloedd triniaeth a chyfarpar yn cael eu glanhau yn barod i'r cleient nesaf. Yn ogystal, cawsom wybod bod cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol yn cael ei ddefnyddio ac y gofynnir i gleientiaid wisgo masg yn ystod ymgyngoriadau a thriniaethau.

Dywedodd y rheolwr wrthym fod ymgyngoriadau bellach yn cael eu cynnal yn yr ystafell aros. Mae mwy o le yn yr ystafell hon fel y gellir cadw pellter cymdeithasol ac mae'n lleihau'r angen i fod mewn cysylltiad agos ag eraill. Caiff urddas a chyfrinachedd eu cynnal gan mai dim ond un cleient sy'n bresennol yn y clinig ar y tro. Cawsom wybod bod cyfleusterau ar gael i'r cleientiaid allu newid yn breifat cyn cael triniaeth a chaiff gynau eu darparu.

Cawsom gopi cyfredol o'r dystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr a fydd yn dod i ben ym mis Medi 2021.

Dyddiad datganiad o ddiben y clinig oedd mis Hydref 2020 ac roedd yn cynnig gwybodaeth allweddol am y clinig, gan gynnwys nodau ac amcanion, gweithdrefnau ymgyngoriadau, manylion triniaethau a gwasanaethau, rhaglenni hyfforddiant a'r weithdrefn gwyno.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cafodd AGIC wybod nad yw'r clinig yn cynnig gwybodaeth ddwyieithog i gleientiaid fel mater o drefn ac mai dim ond un aelod o staff sy'n gweithio yn y clinig, ac nid yw'n gallu siarad Cymraeg. Mae Safon 18 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cyfathrebu'n Effeithiol) yn nodi y caiff gwybodaeth ei darparu mewn fformat sy'n ystyried anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Yn ogystal, mae Rheoliad 9 (1) (g) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar waith sy'n amlinellu sut mae'n darparu gwybodaeth i gleifion. Dylai'r polisi hwn nodi sut mae'r gwasanaeth am fynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn Gymraeg pe bai un o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gofyn am hyn.

Rhoddodd y rheolwr bolisi asesu risg i ni. Roedd y polisi'n nodi bod rhestr wirio reolaidd ar gyfer y peiriant laser/IPL, ond nid oedd yn cynnwys asesiad risg amgylcheddol. Mae AGIC yn cydnabod bod y clinig yn cwblhau gwiriadau dyddiol a chawsom ein sicrhau gan y rheolwr bod y gwiriadau hyn yn cael eu dogfennu. Fodd bynnag, mae AGIC yn argymell bod y clinig yn rhoi asesiad risg amgylcheddol ar waith sy'n nodi risgiau, sut i liniaru'r risgiau hynny a'r camau gweithredu gofynnol ac a gymerwyd i fynd i'r afael â materion sy'n codi yn amgylchedd y clinig. Dylid cwblhau'r asesiad risg yn rheolaidd a'i ddogfennu'n llawn. Bydd hyn yn sicrhau y cydymffurfir â Safon 12 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliad 26 a 40 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau rheoli heintiau a pholisïau penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd yr asesiad risg COVID-19, dyddiedig 27 Gorffennaf 2020, yn cynnwys rhestr

gynhwysfawr o beryglon a'r camau a gymerwyd i reoli'r risg. Roedd rhai o'r peryglon a ystyriwyd fel rhan o'r asesiad risg yn cynnwys arwynebau halogedig, cleientiaid a staff yn dangos symptomau COVID-19 yn y clinig, trosglwyddo'r feirws a chyfarpar diogelu personol.

Rhoddodd y rheolwr wybod i ni fod cyfleusterau golchi dwylo a diheintio dwylo yn y clinig ac roedd arwyddion wedi cael eu gosod i ddangos i gleientiaid sut i olchi eu dwylo'n gywir. Dywedodd y rheolwr wrthym fod yr holl lyfrynnau wedi cael eu symud o'r clinig er mwyn lleihau'r risg o groeshalogi a bod y staff a'r cleientiaid yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn cadarnhau bod y rheolwr wedi mynychu hyfforddiant Craidd Gwybodaeth Lynton Lasers. Cadarnhaodd adroddiad ymweliad gan Lynton Lasers, dyddiedig 15 Hydref 2020, fod y rheolwr wedi mynychu gweminarau yn rheolaidd drwy gydol y pandemig.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom gopi o'r polisi Rheoli Heintiau cyfredol. Nododd AGIC fod deddfwriaeth anghywir yn cael ei dyfynnu ym mhrif gorff y ddogfen. Yn ogystal, nid oedd y polisi yn adlewyrchu canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn ag atal a rheoli feirws COVID-19 na'r asesiad risg ar gyfer COVID-19 a fabwysiadwyd gan y clinig ym mis Gorffennaf 2020. Mae AGIC yn argymell bod y rheolwr yn adolygu'r polisi ac yn diweddaru'r cynnwys fel ei fod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol, deddfwriaeth ac asesiadau risg gweithredol.

Mae AGIC yn cydnabod bod y clinig wedi datblygu asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer COVID-19 sy'n amlinellu'r camau gweithredu sydd eu hangen i reoli risgiau. Fodd bynnag, er mai mis Ebrill 2021 oedd y dyddiad ar yr asesiad, roedd yn ymddangos bod y cynnwys yn adlewyrchu asesiad risg a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2020. Nodwyd hefyd nad oedd y ddogfen yn nodi'r unigolyn sy'n gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu gofynnol na'r dyddiad ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu hynny. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a gytunodd i adolygu'r holl gamau gweithredu a nodir yn yr asesiad a'u diweddaru'n briodol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i reolwr Gresford Skincare and Laser Clinic sut roedd wedi addasu'r gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Y canllaw i gleifion

- Polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Tystysgrifau hyfforddiant
- Polisïau triniaeth a meddygol
- Rheolau lleol

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddodd y rheolwr brotocolau meddygol, triniaeth a golau pwls dwys cyfredol i ni a gyhoeddwyd gan systemau LUMINA Lynton.

Cawsom dystiolaeth gan y rheolwr i gadarnhau ei bod wedi mynychu'r cwrs Craidd Gwybodaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Darparwyd tystysgrifau hefyd a oedd yn cadarnhau bod y rheolwr wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant yn llwyddiannus, megis safonau ansawdd uwch a gweithdai datblygu ymarferwyr ar gyfer defnyddio'r cyfarpar laser drwy Lynton Lasers Ltd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dangosodd tystysgrif ar gyfer cwrs Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan fod y rheolwr wedi mynychu a chyflawni 6 awr o ddysgu ym mis mai 2018. Mae'r dystysgrif yn dangos ei bod yn ddilys am dair blynedd o'r dyddiad cyflwyno. Cydnabu'r rheolwr bod angen adnewyddu'r hyfforddiant.

Cydnabu'r rheolwr hefyd fod angen adnewyddu'r hyfforddiant cymorth cyntaf.

Wrth adolygu'r polisi Diogelu, nodwyd bod hen ddeddfwriaeth yn cael ei dyfynnu. Mae AGIC yn argymell bod y rheolwr yn adolygu'r polisi ac yn diweddaru'r cynnwys fel ei fod yn adlewyrchu canllawiau a deddfwriaeth gyfredol.

Y rheolwr yw'r unig aelod o staff sy'n gweithio yn y clinig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodwyd y gall fod angen cael cymorth locwm yn y clinig o bryd i'w gilydd os bydd absenoldeb. Cadarnhaodd y rheolwr nad oes polisi ar waith sy'n cynnig canllawiau ar recriwtio staff neu weithwyr locwm ac y byddai'n ymdrin â hyn fel rhan o gynllun gwella AGIC.

## Gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi darparu triniaethau'n ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i esbonio triniaethau i gleifion, sut y caiff anghenion triniaeth eu hasesu a'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfarpar laser.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom fwrw golwg dros y canllaw i gleifion a nodwyd ei fod yn cynnig esboniad cynhwysfawr o'r triniaethau sydd ar gael yn y clinig, gweithdrefnau ymgyngoriadau a chwynion a'r ffordd y mae'r clinig yn diogelu preifatrwydd ac urddas cleientiaid. Mae copi o'r canllaw i gleifion yn rhoi gwybod i'r cleient y gall atal triniaeth ar unrhyw adeg.

Mae'r canllaw i gleifion hefyd yn rhoi rhestr o'r rhaglen hyfforddiant clinigol a ddarperir gan Lynton lasers sy'n galluogi staff y clinig i fod yn hyderus ac yn effeithlon wrth roi triniaethau.

Gwelsom dystysgrifiau, â dyddiad mis Chwefror a mis Mai 2021, a oedd yn cadarnhau bod y ddau laser a ddefnyddir yn y clinig yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd a'u bod wedi cael eu profi'n briodol.

Cawsom gopi o Reolau Lleol, dyddiedig Hydref 2020, a gyhoeddwyd gan Lynton Lasers Ltd. Roedd y rhain yn cadarnhau bod rheolwr y clinig yn Oruchwylydd Diogelu rhag Laserau swyddogol. Roedd y rheolau hefyd yn darparu manylion Cynghorwyr Meddygol a Diogelu rhag Laserau a chyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio laserau'n ddiogel yn unol â deddfwriaeth, safonau a chanllawiau.

Gwnaethom edrych ar Brotocolau Meddygol a Thriniaeth a gyhoeddwyd gan Lynton Lasers Ltd, dyddiedig Awst 2020. Roedd y dogfennau yn cynnwys protocolau triniaeth arbenigol a phwyntiau cyfeirio i'r clinig eu defnyddio wrth roi triniaethau gan ddefnyddio'r ddau laser yn y clinig. Rhoddodd y rheolwr wybod i AGIC fod y clinig yn cyfeirio at y protocolau hyn i gael gwybodaeth am feddyginiaethau a gwrtharwyddion. Cawsom wybod bod y wybodaeth yn y protocolau yn dod o Gymdeithas Laser Meddygol Prydain a'i bod yn cael ei diweddaru'n flynyddol.

Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r clinig ar 15 Hydref 2020. Cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn nodi canlyniad cadarnhaol.

Rhoddodd y rheolwr y polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth i ni, dyddiedig Hydref 2020, a'r ddogfennaeth a ddefnyddir i gofnodi hanes meddygol cleient a cheisio cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn unrhyw driniaeth.

Mae'r clinig yn rhoi canllawiau i'r cleifion ar ôl triniaeth, yn eu cynghori ar yr hyn y dylent ei wneud os byddant mewn poen, yn teimlo'n anesmwyth neu'n cael unrhyw sgil-effeithiau eraill. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol. Yn ogystal, cawsom wybod y byddai'r clinig yn ymgorffori'r canllawiau hyn yn y canllaw i gleifion.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cadarnhaodd y rheolwr fod cyfeirlyfr hefyd yn cael ei ddefnyddio ar adegau er mwyn dod o hyd i wybodaeth am feddyginiaeth a gwrtharwyddion posibl a allai atal triniaeth rhag mynd rhagddi. Mae AGIC yn argymell mai protocolau Meddygol a Thriniaeth cyfredol a gyhoeddwyd

gan Lynton Lasers ddylai gael eu defnyddio fel y brif ddogfen gyfeirio ac, os bydd angen gwybodaeth ychwanegol, rhaid i'r rheolwr gysylltu â'r Cynghorwyr Meddygol a Diogelu rhag Laserau yn Lynton Lasers Ltd.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Gresford Skin and Laser Clinic

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r rheolwr sicrhau bod y clinig yn mabwysiadu polisi sy'n amlinellu'r ffordd y mae'r gwasanaeth am fynd i'r afael â'r angen i gyfathrebu a darparu gwybodaeth yn Gymraeg os bydd defnyddiwr y gwasanaeth yn gofyn am hyn. | Safon 18 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Cyfathrebu'n Effeithiol a Rheoliad 9 | Mae'r clinig wedi rhoi Polisi ar waith i esbonio gwybodaeth sydd wedi cael ei darparu i gleientiaid sy'n siarad Cymraeg<br>• Ffurflenni ymgynghoriad<br>• Taflenni ôl-ofal<br>• Arwyddion<br>Darperir fersiynau Cymraeg a Saesneg<br>Os oes angen, mae croeso i gyfieithydd Cymraeg fynd gyda'r cleient i'w apwyntiad. (gan gadw at ganllawiau COVID-19 y Clinig | Rheolwr y Clinig | Bellach ar waith yn barhaol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar hyn o bryd) | | |
| 2 | Dylai'r rheolwr sicrhau bod y clinig yn rhoi asesiad risg amgylcheddol ar waith sy'n nodi risgiau, sut i liniaru'r risgiau hynny a'r camau gweithredu gofynnol ac a gymerwyd i fynd i'r afael â materion sy'n codi yn amgylchedd y clinig. Dylid cwblhau'r asesiad risg yn rheolaidd a'i ddogfennu'n llawn. Mae hyn yn sicrhau y cydymffurfir â | Safon 12 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol – yr Amgylchedd a Rheoliadau 26 a 40. | Mae asesiadau risg yn cynnwys gwiriadau dyddiol/wythnosol o'r amgylchedd<br><br>Mae'r rhestrau gwirio ar gyfer y laserau / IPL yn cynnwys<br>• Gwirio'r ystafell<br>• Gwirio'r cyfarpar<br>• Sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio<br>• Paratoi'r ardal<br>• Yr amgylchedd awyr agored<br><br>Caiff y rhain eu dogfennu a'u storio yn y clinig | Rheolwr y Clinig | Cânt eu gwirio'n ddyddiol/wythnosol gan reolwr y clinig |
| 3 | Rhaid i'r rheolwr adolygu'r polisi rheoli heintiau a diweddaru'r cynnwys i adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer atal a rheoli feirws COVID-19 ac asesiadau risg rheoli heintiau gweithredol. | Safon 13 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi a Rheoliad 9 | Mae'r Polisi Rheoli Heintiau bellach wedi cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal Iechyd Annibynnol Cymru 2011. | Rheolwr y Clinig | I'w adolygu'n flynyddol gan reolwr y clinig |
| 4 | Dylai'r rheolwr sicrhau bod yr asesiad risg COVID-19 yn cael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i gwblhau'n llawn. | Safon 13 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi a | Mae'r asesiad risg COVID-19 bellach wedi cael ei ddiweddaru a'i gwblhau'n llawn ac mae wedi cael ei anfon at Arolygydd AGIC | Rheolwr y Clinig | Asesiad risg i gael ei adolygu'n flynyddol neu os bydd unrhyw ddigwyddiad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rheoliad 9 | | | |
| 5 | Dylai'r rheolwr wneud trefniadau i fynychu hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf. | Safon 24 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Y Gweithlu ac Arferion Recriwtio a Chyflogi a Rheoliad 13 | Wedi cysylltu â darparwyr cyrsiau diogelu a chymorth cyntaf ar-lein - aros i gadarnhau dyddiad | Rheolwr y Clinig | Hyfforddiant i'w ddiweddaru bob 3 blynedd |
| 6 | Dylai'r rheolwr adolygu'r polisi diogelu a diweddaru'r cynnwys i adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. | Safon 11 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Diogelu a Rheoliad 9 | Mae'r Polisi Diogelu wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio, ac mae'r canllawiau cywir diweddaraf a Deddfwriaeth 2011 wedi cael eu cynnwys | Rheolwr y Clinig | Dogfen i gael ei hadolygu'n flynyddol gan reolwr y clinig |
| 7 | Dylai'r rheolwr roi polisi ar waith i roi canllawiau ar recriwtio staff a gweithwyr locwm. | Safon 24 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Y Gweithlu ac Arferion Recriwtio a Chyflogi a Rheoliad 20 | Mae Polisi bellach wedi cael ei roi ar waith yn esbonio pa wasanaeth cyflenwi gan locwm fyddai'n cael ei ddarparu os na fyddai rheolwr y clinig yn gallu gweithio am y rhesymau canlynol:<br>• Salwch<br>• Gwyliau blynyddol<br>• Hyfforddiant / DPP | Rheolwr y Clinig | Polisi i gael ei adolygu'n flynyddol |
| 8 | Mae AGIC yn argymell mai protocolau Meddygol a Thriniaeth cyfredol a gyhoeddwyd gan Lynton Lasers ddylai gael eu defnyddio fel y brif ddogfen gyfeirio ar gyfer pob gwrtharwydd ac, os bydd angen gwybodaeth ychwanegol, rhaid i'r | Safon 7 - Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol a Rheoliad 15. | Protocolau Lynton Lasers ar driniaethau a gwrtharwyddion yw'r brif ddogfen gyfeirio a ddefnyddir yn ogystal â llyfr i ddod o hyd i wybodaeth am feddyginiaethau | Rheolwr y Clinig | Caiff y wybodaeth ei diweddaru'n flynyddol gan y Cynghorwyr Meddygol a Diogelu rhag Laserau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rheolwr gysylltu â'r Cynghorwyr Meddygol a Diogelu rhag Laserau yn Lynton Lasers Ltd. | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Tanya Jones

Dyddiad: 08/07/2021